# Adroddiad Blynyddol
# Llywodraethwyr Ysgol Tryfan




YSGOL TRYFAN

Lôn Powys, BANGOR,
Gwynedd. LL57 2TU
01248 352633
@ysgol_tryfan
swyddfa@tryfan.ysgoliongwynedd.cymru
www.ysgoltryfan.org

2023 - 2024

## Cyfarchiad y Cadeirydd

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol Corff Llywodraethol Ysgol Tryfan.

Dwi'n ffodus i fod yn gadeirydd grŵp ymroddedig a brwdfrydig iawn o bobl leol sy'n rhoi o'u hamser yn wirfoddol i gefnogi'r ysgol. Mae'r grŵp, sy'n cynrychioli rhieni, y gymuned leol, yr awdurdod lleol a staff yr ysgol, yn cymryd eu rôl o fod yn ffrind beirniadol o ddifrif. Maent yn monitro cynnydd mewn amrywiaeth o feysydd, yn adolygu polisïau ac arferion, ac yn herio'r ysgol i gyflawni'r canlyniadau mwyaf cadarnhaol posibl i'n holl blant a phobl ifanc, tra hefyd yn gosod y flaenoriaeth uchaf ar sicrhau diogelwch pawb yng nghymuned ein hysgol.

Ymddengys nad oes byth flwyddyn heb heriau, ac roedd y flwyddyn a gwmpesir gan yr adroddiad wedi cael ei chyfran deg. Mae'r cyfnod pontio i'r cwricwlwm newydd i Gymru yn mynd rhagddo'n dda ac rydym yn parhau i weld gwelliannau yn amgylchedd yr ysgol, tra'n pwyso am fuddsoddiad sylweddol hirdymor yn yr ystâd.

Yn olaf, mae fy niolch diffuant yn ddyledus i bob un ohonoch sy'n dysgu, yn addysgu ac yn cefnogi ein hysgol.

Dymuniadau gorau

Carl Mather
Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Tryfan

**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I RIENI 2023/24**

Annwyl Rieni,

Dyma gopi o Adroddiad Blynyddol Llawn y Llywodraethwyr i Rieni am y flwyddyn ysgol 2023-24. Mae copi hefyd ar gael ar wefan yr ysgol www.ysgoltryfan.org

Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 bellach yn galluogi rhieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol i ofyn am hyd at dri chyfarfod y flwyddyn gyda'r Corff Llywodraethu trwy gyfrwng deiseb.

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu gynnal cyfarfod o fewn 25 diwrnod ysgol o dderbyn deiseb, cyn belled â bod y ddeiseb yn cynnwys llofnod yr isafswm angenrheidiol o rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, sef yr isafswm o'r canlynol:

1. Rhieni 10% o ddisgyblion cofrestredig, neu
2. Rhieni 30 o ddisgyblion cofrestredig.

Mae'n rhaid i'r cyfarfod y mae'r rhieni wedi gofyn amdano drafod materion yn berthnasol i'r ysgol. Gofynnaf i chi gysylltu gyda mi cyn diwedd dydd, dydd Gwener, Ionawr 17eg, 2025 os yn dymuno cyflwyno deiseb yn gwneud cais am gyfarfod.

Ni chynhaliwyd cyfarfod i rieni yn ystod y flwyddyn ysgol 2023-24.

Yn gywir,

Bethan Thomas
Clerc y Llywodraethwyr

# ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR AM Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2023/24

Cyflwynir yr adroddiad hwn i rieni'r ysgol. Crynodeb sydd yma o'r modd y cyflawnodd y Pennaeth a'r Llywodraethwyr eu swyddogaethau yn ystod y flwyddyn academaidd 2023/24.

## AELODAETH Y CORFF LLYWODRAETHOL AM 2023/24

**Cadeirydd y Corff – Mr Carl Mather**
**Is-gadeirydd y Corff – Mrs Janet Abas**
**Llywodraethwraig Ddynodedig Amddiffyn Plant – Mrs Lowri Elis**

**Clerc y Corff – Miss Bethan Thomas**

Gellir cysylltu â'r Cadeirydd a'r Clerc drwy'r ysgol:
Ysgol Tryfan, Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU.
01248 352633 / sg@tryfan.ysgoliongwynedd.cymru

| Cynrychiolaeth: | Enw: | Hyd at: |
|---|---|---|
| Pennaeth | Dr Geraint Owen Jones (o 01.01.2023) | Yn rhinwedd ei swydd |
| Cynrychiolwyr Rhieni | Mr Aled Hughes | 30.11.2027 |
| | Mr Dyfan Siôn | 30.11.2027 |
| | Mrs Sian Eleri Morgan | 28.02.2027 |
| | Dr Catrin Elis Williams | 31.10.2024 |
| | Mr Gwion Hallam | 31.10.2024 |
| Cynrychiolwyr Athrawon | Mrs Nia Griffiths Jones | 31.08.2026 |
| | Mr Alan Jukes | 31.08.2026 |
| Cynrychiolydd Staff Ategol | Mrs Meryl Jones | 31.08.2025 |
| Cynrychiolwyr Awdurdod Addysg Leol | Mrs Jên Dafydd | 30.11.2026 |
| | Cyng. Menna Baines | 31.08.2026 |
| | Cyng. Elin Walker-Jones | 31.08.2026 |
| | Mr Gwyndaf Pari | 30.04.2025 |
| Cynrychiolwyr Cymunedol | Mrs Janet Abas | 31.10.2026 |
| | Mr Wil Parry | 31.10.2027 |
| | Mr Carl Mather | 31.10.2027 |
| | Mrs Lowri Elis | 30.11.2027 |
| Cynrychiolwyr Disgyblion | Corey Anderson | 31.08.2024 |
| | Gwawr Owen | 31.08.2024 |

Cynhaliwyd etholiad ar gyfer Rhieni Lywodraethwyr ddiwethaf ym mis Hydref 2024 pan daeth cyfnodau cynrychiolwyr rhieni i ben. Cynhelir yr etholiad nesaf ar gyfer Rhieni-Lywodraethwyr mis Chwefror 2027.

## YR YSGOL

Roedd gan Ysgol Tryfan 539 o ddisgyblion ar ei llyfrau ym mis Medi 2023. Rhif mynediad yr ysgol am 2023/24 yw 100 ar gyfer pob blwyddyn ysgol. Ym mis Medi 2024, mae gennym 520 o ddisgyblion ar y llyfrau (yn cynnwys 60 yn y chweched dosbarth) 36 o athrawon a 19 o staff cefnogol.

## NOD AC AMCANION YR YSGOL

### Datganiad o werthoedd yr ysgol.

**Yn Ysgol Tryfan amcenir i greu cymdeithas glôs, Gymraeg ei hiaith gyda phawb -**

- **yn hapus ac yn hyderus;**
- **yn llwyddo hyd eithaf eu gallu ym mhob maes;**
- **yn arddel hunan-barch a pharch at eraill;**
- **yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.**

**Rhagoriaeth yw nod yr ysgol yn ei holl weithgaredd.**

## NODAU

1. Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl i gynorthwyo'r disgybl unigol i ddod i adnabod ei hunan, i feithrin yr adnoddau cynhenid sydd ganddo hyd eithaf ei allu ac i oresgyn ei wendidau.
2. Creu awyrgylch a fydd yn meithrin ym mhob disgybl berthynas iach gydag eraill, a'i ddysgu i barchu a gwerthfawrogi cymeriadau, talentau a daliadau pobl eraill.
3. Galluogi pob disgybl i ddatblygu i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg fel y gall ddod i adnabod a deall y gymdeithas a'r byd y mae'n byw ynddo ac ennyn ymwybyddiaeth o'i wreiddiau, ei gefndir a'i amgylchedd.

## AMCANION

1. Datblygu cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol ar gyfer pob disgybl a fydd yn ateb gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, polisïau'r ysgol a pholisïau'r AALl.
2. Meithrin a monitro datblygiad pob disgybl drwy'r drefn fugeiliol sy'n bodoli yn yr ysgol i ofalu am les a ffyniant y disgyblion.
3. Paratoi'r disgyblion i feithrin y cymwysterau y byddant eu hangen yn y gymdeithas y deuant yn rhan ohoni ac er mwyn iddynt allu cyfrannu'n gyfrifol iddi.
4. Datblygu cysylltiadau gyda masnach a diwydiannau lleol a chreu perthynas glôs gyda'r rhieni, addysg bellach ac uwch a'r gymdeithas yn gyffredinol.

Sefydlwyd Ysgol Tryfan ym 1978, yn benodol i ddarparu addysg ddwyieithog i blant a phobl ifanc cylch Bangor, a hynny mewn awyrgylch Gymraeg.

Yr awyrgylch Gymraeg hon sydd yn rhoi i Ysgol Tryfan ei harbenigrwydd a'i rheswm dros fodolaeth.

Cred yr ysgol mewn darparu'r addysg orau i bob disgybl yn ddiwahân heb gymryd unrhyw sylw o ryw, cefndir, crefydd na thras.
Swyddogaeth ganolog yr ysgol yw arolygu a llywio datblygiad yr unigolyn fel aelod o'i gymdeithas - gan ymateb i ddisgwyliadau'r gymdeithas honno. Gosodir y canlynol fel conglfeini'r addysg a gynigir:

1. Y disgybl unigol a'i anghenion yw man cychwyn yr holl drefniadau.
2. Mae lles y disgybl unigol yn ddibynnol ar ansawdd cymdeithas yr ysgol, ac felly mae creu cymdeithas addas yn hanfodol i'w lewyrch.
3. Mae'r rhieni, y cartref a'r gymdeithas yn ddylanwadau cryf ar blentyn- dim ond mewn partneriaeth â'r rhain y gall yr ysgol gyflawni ei swyddogaeth.

**CYFARFODYDD Y LLYWODRAETHWYR**

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau cyfarfu'r Corff Llywodraethu yn yr ysgol ar y dyddiadau a ganlyn: 28/9/23, 20/12/23, 19/3/24 a 10/7/24.

Medi 28ain, 2023

Etholwyd Cadeirydd ac Is-gadeirydd.

Penodwyd Llywodraethwr Dynodedig Amddiffyn Plant.

Penodwyd Llywodraethwr Dynodedig Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Penodwyd Llywodraethwr Dynodedig Cydraddoldeb Hiliol.

Penodwyd Llywodraethwr Dynodedig Iechyd, Diogelwch ac Adeiladau.

Penodwyd Llywodraethwr Dynodedig Hyrwyddo'r Gymraeg.

Cadarnhawyd aelodaeth y Corff a chytunwyd ar aelodaeth yr Is-bwyllgorau.

Cadarnhawyd Cyswllt Llywodraethwyr / Adrannau / Meysydd Dysgu.

Cytunwyd ar Egwyddorion Ymddygiad Llywodraethwyr.

Cytunwyd ar Gyfrifoldebau a Chylch Gorchwyl Pwyllgorau'r Corff.

Dosbarthwyd manylion am gyrsiau hyfforddiant i Lywodraethwyr.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod Corff llawn blaenorol.

Derbyniwyd cofnodion yr Is-bwyllgorau.

Trafodwyd materion yn codi o'r cofnodion.

Cytunwyd ar galendr cyfarfodydd y flwyddyn.

Trafodwyd blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol.

Derbyniwyd adroddiad gan y Pennaeth ar staffio, presenoldeb, gwaharddiadau a phrosiectau ysgol.

Cafwyd cyflwyniad gan y Dirprwy Bennaeth ar ganlyniadau Haf 2023.

Cytunwyd gyda'r cais i gynnal taith i Sbaen (blwyddyn 9) ym mis Tachwedd 2024.

Rhagfyr 20fed, 2023

Cafwyd cyflwyniad gan y disgyblion Lywodraethwyr ar ran y Cyngor Ysgol.

Derbyniwyd adroddiadau ar weithdrefnau Amddiffyn Plant o fewn yr ysgol.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod Corff llawn blaenorol.

Derbyniwyd cofnodion yr Is-bwyllgorau.

Trafodwyd materion yn codi o'r cofnodion.

Derbyniwyd adborth gan Lywodraethwyr Cyswllt adrannol yn dilyn cyfarfodydd Tymor yr Hydref.

Derbyniwyd adroddiad gan y Pennaeth am bresenoldeb, adeiladau, trosglwyddiadau, staffio a bywyd ysgol.

Cafwyd gwybodaeth gan y Pennaeth am gynlluniau Cyngor Gwynedd o ran gwelliannau a dyfodol yr ysgol.

Mabwysiadwyd Polisi Ymweliadau Addysgol 2023-24.

Mabwysiadwyd Polisi Delio â Chwynion.

Mabwysiadwyd Polisi Cyflogau Athrawon 2023-24.

Mabwysiadwyd Polisi Cloi Mewn Argyfwng.

Mawrth 19eg, 2024

Cafwyd cyflwyniad gan y disgyblion Lywodraethwyr ar ran y Cyngor Ysgol.

Derbyniwyd adroddiadau ar weithdrefnau Amddiffyn Plant o fewn yr ysgol.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod Corff llawn blaenorol.

Derbyniwyd cofnodion yr Is-bwyllgorau.

Trafodwyd materion yn codi o'r cofnodion.

Mabwysiadwyd Polisi Atal Eithafiaeth a Radicaleiddio.

Mabwysiadwyd Polisi Absenoldebau (Plant) Oherwydd Salwch.

Mabwysiadwyd Polisi Gofal a Mynd i'r Toiled.
Mabwysiadwyd Polisi Diogelu Oedolion Mewn Ysgolion.
Mabwysiadwyd Polisi Ymddygiad.
Mabwysiadwyd Polisi Gwrth Fwlio.
Mabwysiadwyd Polisi Datblygiad Cynaliadwy.
Mabwysiadwyd Polisi / Dogfen Trosolwg Cwricwlwm.
Mabwysiadwyd Polisi a Gweithdrefn Medrusrwydd.
Mabwysiadwyd Polisi E-ddiogelwch.
Mabwysiadwyd Polisi Cloi Mewn Argyfwng.
Mabwysiadwyd Gweithdrefn Iechyd a Diogelwch.
Derbyniwyd crynodeb o sefyllfa gyllidol yr ysgol a'r Patrwm Cwricwlaidd.
Cafwyd diweddariad gan y Pennaeth ar ddyfodol a datblygiadau adeilad yr ysgol.
Cafwyd diweddariad gan y Pennaeth ar ddyfodol yr Hybiau Cynhwysiad.
Derbyniwyd adroddiad gan y Pennaeth ar niferoedd, presenoldeb, gwaharddiadau, staffio a llwyddiannau ysgol.
Cafwyd trafodaeth ar ddyfodol Llun Kyffin Williams sydd yn yr ysgol – dim penderfyniad.
Cytunwyd gyda cais yr Adran Gymraeg i gynnal taith 6ed dosbarth i Gaeredin.

<u>Gorffennaf 10fed, 2024</u>
Trafodwyd aelodaeth y Corff – dwy sedd wag, a chyfnodau yn dod i ben.
Derbyniwyd adroddiadau ar weithdrefnau Amddiffyn Plant o fewn yr ysgol.
Derbyniwyd adroddiad blynyddol ar lafar gan Mr Dyfrig Jones am yr Hybiau Cynhwysiad.
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod Corff llawn blaenorol.
Derbyniwyd cofnodion yr Is-bwyllgorau.
Trafodwyd materion yn codi o'r cofnodion.
Mabwysiadwyd Polisi Rheoli Perfformiad.
Mabwysiadwyd Polisi Gwisg Ysgol.
Mabwysiadwyd Polisi Defnydd o Wirfoddolwyr Mewn Ysgol.
Mabwysiadwyd Polisi Bwyd a Ffitrwydd.
Mabwysiadwyd Polisi Cymorth Cyntaf.
Mabwysiadwyd Canllawiau Diogelu a Pholisi Amddiffyn Plant.
Mabwysiadwyd Polisi Absenoldeb Tadolaeth.
Mabwysiadwyd Polisi Cais i Weithio'n Hyblyg.
Mabwysiadwyd Polisi Cefnogi Gofalwyr yn y Gwaith.
Mabwysiadwyd Polisi Anghenion Iechyd.
Mabwysiadwyd Cyllideb 2024/25.
Derbyniwyd adroddiad gan y Pennaeth ar niferoedd, presenoldeb, materion personél ac adeiladau.
Rhannwyd canfyddiadau holiaduron staff a rhieni.
Trafodwyd rheolau / defnydd ffonau symudol yn yr ysgol o fis Medi 2024.
Cyflwynyd blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol ar gyfer 2024-25.
Derbyniwyd crynodeb gan y Cadeirydd o Hunan Arfarniadau'r Llywodraethwyr ar gyfer 2022-23.
Cytunwyd i gadw llun Kyffin Williams yn yr ysgol.





**<u>YMDDYGIAD A DISGYBLAETH – EGWYDDORION CYFFREDINOL</u>**

Y mae datganiad cenhadaeth Ysgol Tryfan yn cyfeirio at- *“greu cymdeithas gyda phawb yn hapus ac yn hyderus; yn llwyddo hyd eithaf eu gallu ym mhob maes; yn arddel hunan-barch a pharch at eraill*”. Er mwyn gwireddu hyn, mae yn rhaid wrth awyrgylch ddisgybledig a’r cwbl wedi ei seilio ar yr egwyddor o BARCH. Nod Polisi Disgyblaeth Ysgol Tryfan yw sicrhau hynny.

**Amcan**

Rhoi pwyslais ar hunanddisgyblaeth ac amlygu hyn yn holl weithgaredd yr ysgol.
Cael rheolau ymddygiad sy’n rhoi’r pwyslais ar ymddygiad cadarnhaol ac adeiladol.
Cael trefn ddisgyblu sy’n sefyll ochr yn ochr â threfn o wobrwyo ymddygiad a gwaith da.
Cael pob athro i weinyddu'r drefn wobrwyo/disgyblu yn gyson ac yn gyfartal a chael y rhieni i’w chefnogi.

1. Mae gan bawb ran i'w chwarae wrth gadw trefn a sicrhau safon dda o ddisgyblaeth yn yr ysgol.
2. Disgwylir i blant ddangos parch at eu hunain, at ei gilydd ac at eiddo ei gilydd, parch at staff ac ymwelwyr a pharch at eiddo'r ysgol. Bydd staff yr ysgol bob amser yn dangos parch at ddisgyblion.
3. Disgwylir i blant fod yn eu gwersi mewn pryd gan ddod â’r pethau angenrheidiol ar gyfer cwblhau eu gwaith efo nhw. Disgwylir iddynt wneud eu gorau.
4. Disgwylir i blant barchu awdurdod yr athro ac ufuddhau i unrhyw orchymyn rhesymol.
5. Mae bwlio o unrhyw fath yn hollol annerbyniol ac fe ystyrir pob achos yn un difrifol.
6. Bydd athrawon yn ymateb i waith neu ymddygiad da drwy system wobrwyo'r ysgol a byddant yn ymateb i gamymddygiad neu ddiffyg ymdrech drwy’r system ddisgyblu.
7. Gweithredir y system wobrwyo a’r system ddisgyblu yn gyntaf drwy'r pennaeth blwyddyn os yn fater bugeiliol, neu drwy’r pennaeth adran os yn fater academaidd. Gellir hefyd weithredu drwy'r Pennaeth/tîm rheoli neu’r athro dosbarth.
8. Gweinyddir y systemau gwobrwyo a disgyblu yn gyson i bob unigolyn ac yn hollol deg.
9. Mae’r ysgol yn cydnabod rôl allweddol rhieni. Rhoddir gwybod i rieni am unrhyw ddirywiad arwyddocaol yn safon gwaith neu yn agwedd eu plant a chysylltir â hwy hefyd os oes unrhyw broblem ddifrifol.
10. Bydd unrhyw gosb yn gymesur â natur y drosedd a rhoddir ystyriaeth i –
    oedran y disgybl;
    unrhyw anghenion arbennig sydd gan y disgybl;
    hanes blaenorol y disgybl yn yr ysgol;
    amgylchiadau arbennig;
    y tebygolrwydd o ailadrodd;
    yr effaith ar weddill yr ysgol.
11. Gellir cosbi disgybl drwy ei gadw i mewn amser egwyl neu amser cinio. Gall y pennaeth blwyddyn neu’r Pennaeth hefyd gosbi plentyn drwy ei gadw ar ôl oriau arferol ysgol. Pan wneir hynny, rhoddir o leiaf 24 awr o rybudd i rieni.
12. Am gamymddygiad difrifol, gall y Pennaeth (neu yn ei absenoldeb, un o’r Uwch Dîm Rheoli) wahardd plentyn o’r ysgol am gyfnod penodol neu yn barhaol. Pan fyddwn ni'n gwneud hyn, cydymffurfir â chanllawiau'r Awdurdod Addysg a pherchir hawliau cyfreithiol y rhieni.
13. Mae'r ysgol yn cydnabod cyfraniad pwysig asiantaethau allanol i’r broses ddisgyblu e.e. Swyddogion Lles Addysg, Seicolegwyr Addysgol, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a chydweithir yn agos â hwy.

Mae'r Corff Llywodraethu yn dirprwyo'r gwaith o weinyddu'r drefn hon o ddydd i ddydd i’r Tîm Rheoli ond byddant yn monitro gweithrediad y polisi.

**GWYBODAETH I RIENI**

Gellir cael manylion am gwricwlwm yr ysgol a'r manylebau pwnc gan y Dirprwy Bennaeth. Cyhoeddir llawlyfr – Llawlyfr i Rieni - yn flynyddol, sy'n cynnwys gwybodaeth am drefniadaeth a rheolau'r ysgol. Yn ogystal â hyn cynhyrchir nifer o lawlyfrau i rieni yn ymwneud â:
Mynediad i Ysgol, Dewisiadau Blwyddyn 10, Mynediad i Flwyddyn 12.

Cynhelir nosweithiau rhieni ar gyfer pob blwyddyn ysgol i rannu gwybodaeth am gynnydd addysgol, a chynhelir nosweithiau ychwanegol i rannu gwybodaeth am feysydd penodol, megis trefn ddewisiadau blwyddyn 10 a 12.





**PROSBECTWS YR YSGOL**

Fe adolygwyd Llawlyfr yr Ysgol ym mis Medi 2024. Mae'n cynnwys gwybodaeth hanfodol am rediad yr ysgol, yn cynnwys y wisg ysgol gywir, y drefn gwyno a chyngor iechyd a diogelwch. Mae copïau ar gael o swyddfa'r ysgol, yn adran y rhieni ar wefan yr ysgol, neu wrth ddilyn y ddolen yma: http://www.ysgoltryfan.org/dogfennau-pwysig.html Fe rannwyd y Llawlyfr gyda rhieni ysgolion cynradd y dalgylch ym mis Hydref.

**DARPARIAETH TOILEDAU**

Mae darpariaeth briodol o doiledau ar gyfer disgyblion yn yr ysgol, wedi eu lleoli mewn tri lleoliad o amgylch yr ysgol. Mae'r prif doiledau yn y prif floc, a cheir toiledau yn y bloc newydd a'r gampfa. Mae'r toiledau'n cael eu harchwilio'n rheolaidd ac fe gyfeirir unrhyw faterion gweithredol neu lendid yn brydlon gan staff yr ysgol.

**DISGYBLION YN HYRWYDDO BWYTA AC YFED YN IACH**

Cynlluniwyd rhaglen o wersi iechyd a lles gyffrous ar gyfer disgyblion CA3 oedd yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Rhoddwyd pwyslais y cyswllt rhwng bwyta / yfed iach gyda bywyd iach, ac yn benodol effeithiau negyddol yfed diodydd egni. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn unwaith eto i'r gwersi gan y disgyblion.





**YMADAWIADAU A PHENODIADAU STAFF**

<u>Staff wedi gadael:</u>

| | |
|---|---|
| Mrs Elin Gwyn | Athrawes Gymraeg (dros dro) |
| Miss Chloe Massey | Athrawes Bwyd a Maeth (rhan amser dros dro) |
| Mrs Ceri Midgley | Uwch Arweinydd Bugeiliol a Phennaeth Addysg Grefyddol |
| Mrs Karen MacIntyre Huws | Athrawes Gymraeg (rhan amser dros dro) |
| Mrs Elin Mair Jones | Athrawes Gymraeg (rhan amser dros dro) |
| Mr Bo Leung | Athro (Cynllun Trosi LLC) |
| Mr Sam Durrant | Technegydd TGCh |

<u>Penodiadau:</u>

| | |
|---|---|
| Mr Eifion Pritchard Jones | Athro Mathemateg |
| Miss Sali Parry | Athrawes Wyddoniaeth (dros dro) |
| Mrs Heledd Jones | Pennaeth Addysg Grefyddol |
| Miss Erin Ynyr | Athrawes Gymraeg |
| Miss Ffion Davies | Athrawes (Cynllun Trosi LLC) |
| Miss Rhianna Roberts | Uwch Gymhorthydd Cyflenwi |
| Miss Billie Jones | Cymhorthydd |
| Mrs Beverley Taylor-Morgan | Cymhorthydd |
| Mr Tomos Efans | Cymhorthydd (dros dro) |
| Mr Cai Smith | Techngeydd TGCH (rhan amser dros dro) |

<u>Penodiadau Mewnol:</u>

| | |
|---|---|
| Mrs Sera Fôn Williams | Pennaeth Blwyddyn 9 |
| Mr Eifion Pritchard Jones | Pennaeth Iechyd a Lles |





**CYSYLLTIADAU GYDA'R GYMUNED**

Mae Ysgol Tryfan yn ysgol sy'n ymfalchïo o fod yn rhan o'i chymuned leol yma yn ardal Bangor. Yn ystod y flwyddyn ysgol darperir rhaglen o gyfleoedd dysgu, o weithgareddau ac o ddigwyddiadau cymunedol.   Datblygir nifer o'r cyfleoedd hyn yn ystod rhaglen waith Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yng Nghyfnod Allweddol 4  a'r Chweched Dosbarth.

Mae Swyddog Cyswllt yr Heddlu, PC Dylan Pritchard, yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i gyflwyno sesiynau o fewn y gwersi Iechyd a Lles.

Cyfrannwn fel ysgol yn fisol i bapur bro Bangor a'r cyffiniau - Y Goriad. Gallwch ddarllen ein hanes fel ysgol hefyd ar wefan yr ysgol <u>www.ysgoltryfan.org</u> ac ar gyfrif Facebook a trydar yr ysgol; @ysgol_tryfan
Hoffem ddiolch hefyd i Gyfeillion Ysgol Tryfan am eu holl gefnogaeth yn ystod y flwyddyn.  Gallwch ddarllen am waith y Cyfeillion ar y cyfrif trydar; @cyfeillion, neu Facebook 'Cyfeillion Ysgol Tryfan'.

## GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL AC YMGLYMIAD CYMUNEDOL

Mae'r Llywodraethwyr wrth eu boddau yn gweld yr amrywiaeth o gyfleoedd allgyrsiol a ddarperir gan y staff i'r disgyblion ac yn ymfalchïo yn y llwyddiannau ym myd chwaraeon, eisteddfodau, cyngherddau, cystadlaethau, ymgyrchoedd dyngarol a nifer o feysydd eraill. Llongyfarchiadau gwresog i'r holl ddisgyblion ar eu llwyddiannau a diolch arbennig i'r staff am eu hymdrechion parhaus i sicrhau cwricwlwm allgyrsiol cyfoethog.

Dyma enghraifft o amserlen gweithgareddau allgyrsiol / clybiau sydd wedi eu trefnu yn fewnol yn yr ysgol.

| | Amser cinio | Ar ôl ysgol |
|---|---|---|
| Llun | Ffitrwydd Bl 7/8 | Rygbi Bechgyn Bl 7/8 |
| | Côr Bl. 7-9 | Hoci Merched Bl 10/11 |
| Mawrth | Badminton TGAU Bl 10/11 | Rygbi Merched Bl 7/8 |
| | Clwb darllen blwyddyn 7 | |
| Mercher | Gymnasteg Bl 7 | Pêl-Droed Merched Bl 7/8/9 |
| | Grwp Chwyth Bl. 7-13 | Rygbi Bechgyn Bl 9/10 |
| Iau | Band Jazz Bl. 7-13 | |
| Gwener | Pêl-Rwyd Bl 10/11 | Pêl-Rwyd Bl 7/8/9 |
| | Côr Bl. 10-13 | |

## GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL YR ADRAN ADDYSG GORFFOROL 2023/24

Crynodeb o nodau'r ysgol mewn perthynas â chwaraeon:

- annog a datblygu sgiliau mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon,
- datblygu disgyblion yn gorfforol hyd eithaf eu gallu,
- annog disgyblion i ddal ati i gymryd rhan mewn chwaraeon ar ôl gadael yr ysgol e.e. drwy'r clybiau lleol,
- meithrin safonau ymddygiad sy'n dderbyniol gan gymdeithas a thrwy hynny ddangos parch tuag at eraill, bod yn ymwybodol o eraill, bod yn barod i gydweithio ag eraill, ac felly meithrin chwarae teg mewn chwaraeon.

Mae timau'r ysgol yn cystadlu yn y chwaraeon canlynol:

Pêl-rwyd　Athletau　Gymnasteg　Nofio　Rownderi
Hoci　Traws Gwlad　Pêl-fasged　Badminton
Rygbi – Bechgyn a merched　Pêl-droed – Bechgyn a merched

Mae'r Adran Addysg Gorfforol yn cynnig rhaglen lawn o weithgareddau. Mae'r disgyblion yn cael amrywiaeth eang o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r adran yn anelu at sicrhau bod pob disgybl, beth bynnag fo eu gallu mewn meysydd chwaraeon gwahanol neu eu diddordeb, yn cael cyfle cyfartal.



**DYDDIADAU TYMOR A GWYLIAU YSGOL I DDISGYBLION AR GYFER 2024/25**

| **TYMOR** | **GWYLIAU** |
|---|---|
| **HYDREF 2024** | 2 Medi 2024 (Hyfforddiant Mewn Swydd – ysgol ar gau i ddisgyblion) |
| 2 Medi – 20 Rhagfyr | 28 Hydref – 1 Tachwedd 2024 (Hanner Tymor) |
| | 23 Rhagfyr 2024 – 3 Ionawr 2025 (Gwyliau'r Nadolig) |
| | |
| **GWANWYN 2025** | 24 – 28 Chwefror 2025  (Hanner Tymor) |
| 6 Ionawr – 11 Ebrill | 14 – 25 Ebrill 2025 (Gwyliau'r Pasg) |
| | |
| **HAF 2025** | 5 Mai 2025 (Calan Mai) |
| 28 Ebrill – 21 Gorffennaf | 26 – 30 Mai 2025 (Hanner Tymor) |
| | 22 Gorffennaf – 29 Awst 2025 (Gwyliau'r Haf) |

**DYDDIADAU TYMOR A GWYLIAU YSGOL I DDISGYBLION AR GYFER 2025/26**

| **TYMOR** | **GWYLIAU** |
|---|---|
| **HYDREF 2025** | 1 Medi 2025 (Hyfforddiant Mewn Swydd – ysgol ar gau i ddisgyblion) |
| 1 Medi – 19 Rhagfyr | 27 – 31 Hydref 2025 (Hanner Tymor) |
| | 22 Rhagfyr 2025 – 2 Ionawr 2026 (Gwyliau'r Nadolig) |
| | |
| **GWANWYN 2026** | 16 – 20 Chwefror 2026 (Hanner Tymor) |
| 5 Ionawr – 27 Mawrth | 30 Mawrth – 10 Ebrill 2026 (Gwyliau'r Pasg) |
| | |
| **HAF 2026** | 4 Mai 2026 (Calan Mai) |
| 13 Ebrill – 20 Gorffennaf | 25 – 29 Mai 2026 (Hanner Tymor) |
| | 21 Gorffennaf – 28 Awst 2026 (Gwyliau'r Haf) |





**DIWRNOD YSGOL**

| | |
|---|---|
| 8.45 | Disgyblion i gyrraedd y safle |
| 8.55 – 9.10 | Cofrestru |
| 9.10 – 10.00 | Gwers 1 |
| 10.00 – 10.50 | Gwers 2 |
| 10.50 – 11.10 | Egwyl |
| 11.10 – 12.00 | Gwers 3 |
| 12.00 – 12.50 | Gwers 4 |
| 12.50 – 1.40 | Cinio |
| 1.40 – 2.30 | Cofrestru a Gwers 5 |
| 2.30 – 3.20 | Gwers 6 |

**HYNT DISGYBLION – 16 oed a 18 oed Haf 2024**

| Llwybrau disgyblion – Haf 2024 | | |
|---|---|---|
| | **Diwedd B11** | **Diwedd B13** |
| Yn parhau mewn addysg llawn amser mewn: | | |
| Ysgol | 34 | 0 |
| Coleg Addysg Bellach neu hyfforddiant amgen | 32 | 4 |
| Addysg Uwch | 0 | 30 |
| Cyflogedig, Prentisiaeth neu 'flwyddyn allan' ôl 18 | 5 | 3 |
| Yn hysbys nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth | 2 | 0 |
| Cyfanswm yn y garfan | 73 | 37 |





**PRESENOLDEB DISGYBLION**
Canran presenoldeb disgyblion sydd ar y gofrestr ym mhob sesiwn bosibl ar gyfer blwyddyn ysgol 2023-2024 (01.09.23 – 19.07.24).

| Blwyddyn Ysgol | Absenoldeb gydag awdurdod | Absenoldeb heb awdurdod | Posibl | % Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|
| 7 | 6.45 | 2.17 | 100 | 91.38 |
| 8 | 7.72 | 2.60 | 100 | 89.68 |
| 9 | 7.77 | 5.21 | 100 | 87.02 |
| 10 | 7.21 | 6.69 | 100 | 86.1 |
| 11 | 6.86 | 6.82 | 100 | 86.32* |
| **Cyfanswm %** | **7.20** | **4.70** | **100** | **88.1%** |

*Blwyddyn 11 (01.09.23 – 24.05.24)

**ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**
Mae 10.6% o ddisgyblion Ysgol Tryfan ar y gofrestr ADY. 15 Cynllun Datblygu Unigol (CDU) Awdurdod, 9 CDU Fforwm a 31 CDU Ysgol. Mae yna 7 cymhorthydd ar hyn o bryd yn cefnogi disgyblion sydd ar Gynlluniau Datblygu Unigol yr Awdurdod yn ogystal a dau gymhorthydd cynhwysiad. Oherwydd newidiadau i sut mae arian CDU Awdurdod yn cael ei ddyrannu i flynyddoedd 7 ac 8, gyda'r geiriad 'mynediad at gymhorthydd', mae wedi caniatáu i ni barhau gyda'r HWB Addysgu. Mae newid yn strwythur yr HWB Addysgu ble mae cymhorthydd yn yr HWB drwy'r amser ac felly yn caniatáu i ddisgyblion sydd efo anghenion fynd yno yn ystod gwersi i gael ystafell dawel i weithio ynddo.

Mae'r ysgol wedi trosi pob disgybl i ADY yn unol â threfniadau newydd yr awdurdod a Llywodraeth Cymru. Mae 55 CDU yr ysgol yn cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn gyda'r pwyslais ar y cyd-

weithio rhwng y disgybl, rhieni/gwarchodwyr a'r ysgol. Mae'r Cydlynydd yn cael ei chefnogi gan athrawes ADY i gynnal cyfarfodydd ac ymyraethau.

Mae'r cymorthyddion yn parhau i dynnu disgyblion allan o'u gwersi/cyfnodau cofrestru yn ystod y dydd ar gyfer ymyraethau llythrennedd, rhifedd, llawysgrifen a sgiliau cymdeithasol. Yn ogystal, cynhelir grŵp anogaeth ar gyfer blynyddoedd 7, 8 a 9 er mwyn gwella ymddygiad, hunan hyder a sgiliau cymdeithasol y disgyblion. Defnyddir y rhaglen Lexia ar gyfer targedu llythrennedd yn y gwersi Saesneg. Rhaglen ar lein ydyw ble mae'r disgyblion yn gallu ei wneud gartref ac yn yr ysgol. Mae dau gymhorthydd wedi uwchsgilio i arwain cynllun ELSA yn yr ysgol. Mae Tyfu Trwy'r Tymhorau (Seasons of Growth) yn cael ei gynnal i ddisgyblion sydd wedi profi profedigaeth. Mae disgyblion gyda diagnosis o Awtistiaeth yn cael cynnig i ddilyn cwrs 'Zones of Regulation' i drafod emosiynau. Cefnogir nifer o'r disgyblion fforwm drwy dimau arbenigol yr Awdurdod- Cyfathrebu a Rhyngweithio, Cynhwysiad ac Athrawon Arbenigol Nam-Golwg, Clyw a Meddygol. Mae cwnsela ar gael i ddisgyblion bregus a mae'r Nyrs Ysgol ar y safle pob Dydd Iau i gwrdd a disgyblion a chynnal sesiynau galw i mewn.

**DISGYBLION ANABL**

Rydym yn Ysgol Tryfan yn gweithio'n agos gydag Awdurdod Addysg Gwynedd a'r asiantaethau perthnasol i sicrhau nad yw disgyblion anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill.





**IAITH A CHWRICWLWM**

Ysgol Gyfun Cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr 11-18 oed yn gwasanaethu Bangor a'r ardal yw Ysgol Tryfan. Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol a phrif gyfrwng pob gwers ac eithrio Saesneg. Un o'n hamcanion sylfaenol yw sicrhau fod ein dysgwyr yn gadael yr ysgol yn drylwyr ddwyieithog ac yn barod ar gyfer sialensiau'r unfed ganrif ar hugain. Rydym yn cefnogi pob disgybl i:
• fwynhau dysgu
• gaffael gwybodaeth a sgiliau sy'n berthnasol i fyd gwaith
• ddatblygu meddwl bywiog ac ymholgar
• fynegi eu safbwynt yn hyderus
• adnabod eu cryfderau eu hunain a chyflawni eu targedau personol
• gyflawni eu gwir botensial
• ddatblygu gofal am eu hamgylchedd
• barchu gwerthoedd crefyddol, moesau a diwylliannau pobl eraill.
Rydym yn ysgol gynhwysol sy'n darparu cyfleoedd cyfartal i bob dysgwr.

**Cwricwlwm Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9**: Mae pob dysgwr Cyfnod Allweddol 3 yn astudio:

Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Sbaeneg, Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, Dylunio & Thechnoleg, TGCh (blynyddoedd 8 a 9), Celf a Dylunio, Cerddoriaeth, Drama (blynyddoedd 7 a 9), Addysg Gorfforol ac Iechyd a Lles. Ym mlynyddoedd 7 ac 8, mae'r Dyniaethau (Hanes, Daearyddiaeth ac Addysg Grefyddol) yn cael eu dysgu o fewn yr un wers. Mae'r rhaglenni astudio ar gyfer blynyddoedd 7, 8 a 9 wedi'u haddasu i ymgorffori egwyddorion y Cwricwlwm i

Gymru.  Ceir pwyslais ar y pedwar diben ynghyd â phrofiadfau cyfoethog i ddysgwyr o fewn y chwe maes addysgu.

**Blwyddyn 10 ac 11:** Mae dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn astudio TGAU neu gyrsiau o lefel gyfwerth:

**Y Cwricwlwm Craidd Cyfnod Allweddol 4**
Mae'n orfodol i ddisgyblion yma astudio'r canlynol:
Cymraeg (Iaith Gyntaf a Llenyddiaeth), Saesneg (Iaith a Llenyddiaeth), Mathemateg a Mathemateg Rhifedd, Gwyddoniaeth Ddwyradd (neu ar wahân), Addysg Gorfforol, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar Lefel Genedlaethol neu Sylfaenol.
**Cwricwlwm Ychwanegol Cyfnod Allweddol 4**
Mae disgyblion yn dewis 3 o'r cyrsiau canlynol i'w hastudio (TGAU, os na nodir yn wahanol):
Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, Addysg Gorfforol, Dylunio a Thechnoleg – Dylunio Cynnyrch, Bwyd a Maeth, Sbaeneg, Busnes (Pearson BTEC), Drama, Cerddoriaeth, Celf, Iechyd a Gofal, Gwyddoniaeth ar wahân.

Cynigir nifer o gyrsiau galwedigaethol (Lefel 2 ac 1) oddi ar safle'r ysgol - Peirianneg Modurol (Lefel 1, Coleg Menai, Llangefni), Trin Gwallt a Therapi Harddwch (Lefel 1 a 2, Coleg Menai, Bangor), Cyfryngau Digidol (Lefel 2 Coleg Menai Llangefni), Adeiladwaith (Lefel 1, Coleg Menai, Llangefni), Peirianneg Fecanyddol (Lefel 2, Coleg Menai, Llangefni), Cefn Gwlad a'r Amgylchfyd (Lefel 2, Coleg Glynllifon), Gofal Anifeiliaid (Lefel 2, Coleg Glynllifon), Astudiaethau'r Tir (Lefel 1, Coleg Glynllifon).

**Blwyddyn 12 a 13:** Mae pob myfyriwr Cyfnod Allweddol 5 yn astudio Safon Uwch / Uwch Gyfrannol neu gyrsiau cyfwerth eraill o blith y dewisiadau canlynol:
Cymraeg, Saesneg Llenyddiaeth, Mathemateg, Mathemateg Bellach (YDO), Ffiseg, Cemeg, Bioleg, Daearyddiaeth (YDH), Hanes, Astudiaethau Crefyddol, Cymdeithaseg, Cerdd, Dylunio a Thechnoleg (YB/YF), Celf, Ffotograffiaeth, Ffrangeg (YF/YDH), Addysg Gorfforol, Technoleg Gwybodaeth (YDO), Seicoleg (YSHO), Peirianneg (CM Llangefni), Cyfryngau Gemau a Ffilm (CM Llangefni), Drama (YDH), Iechyd a Gofal (YDO), Y Gyfraith (YDH), Astudiaethau Busnes (CM Bangor).

Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (Tystysgrif Her Sgiliau Uwch) yn orfodol yn y Chweched Dosbarth.



## Cyfrifon Terfynol Ysgol Tryfan 2023/24

| | £ |
|---|---|
| **Balans Agoriadol 01 Ebrill 2023 (X)** | 224,502 |
| | |
| **GWARIANT** | |
| Staffio | 3,202,964 |
| Cynnal a Chadw | 119,659 |
| Ynni a Trethi | 107,655 |
| Datblygu | 89,263 |
| Gwasanaethau a Chyflenwadau | 177,816 |
| Gwasanaethau Eraill | 295,810 |
| **Cyfanswm Gwariant 2023/2024 (Y)** | 3,993,167 |
| | |
| **INCWM** | |
| Dyraniad | 2,934,793 |
| Dyraniad Ychwanegol | 62,225 |
| Grantiau | 198,571 |
| Incwm Arall | 669,821 |
| **Cyfanswm Incwm 2023/2024 (Z)** | 3,865,410 |
| | |
| **Balansau 31 Mawrth 2024 (X) + (Z) - (Y)** | 96,745 |
| | |
| **Balansau fel % o Ddyraniad 2023/2024** | **3.23%** |
| | |

**Cariwyd balans o £97,745 ymlaen i gyllideb 2024/2025.**

Ni hawliwyd unrhyw gostau teithio a chynhaliaeth gan aelodau'r Corff Llywodraethol. Mae'r Llywodraethwyr yn ddiolchgar i'r ysgol am ddarparu lluniaeth ysgafn o de/coffi a bisgedi ar gyfer cyfarfodydd y Corff Llywodraethol a gynhelir yn yr ysgol. Diolchwn hefyd i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (cyfeillion Ysgol Tryfan) am eu gwaith diflino a chyson wrth godi arian tuag at adnoddau i'r ysgol.

**CANLYNIADAU CYFNOD ALLWEDDOL 4 AR GYFER 2024:**

| CA4 | Sgor Cyfartalog |
| --- | --- |
| Cymraeg Iaith | 39.6 |
| Saesneg Iaith | 37.8 |
| Mathemateg/Rhifedd Gorau | 38.4 |
| Gwyddoniaeth Gorau | 39.9 |
| 5A*- C disgyblion PYD | 27% |
| Sgôr Pwyntiau Cyfartalog (9 wedi'i gapio) | 368.4 (40.93) |

**TARGEDAU CYFNOD ALLWEDDOL 4 AR GYFER 2025:**

| CA4 | Sgor Cyfartalog |
| --- | --- |
| Cymraeg Iaith | 42 |
| Saesneg Iaith | 43 |
| Mathemateg/Rhifedd Gorau | 42 |
| Gwyddoniaeth Gorau | 38 |
| 5A*- C disgyblion PYD | 32% |
| Sgôr Pwyntiau Cyfartalog (9 wedi'i gapio) | 376.55 (43.15) |







